**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr N Ramsay
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

30 Ebrill 2019

Annwyl Mr Ramsay,

**CRAFFU AR GYFRIFON 2017-18 GAN Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS**

Diolch i chi am yr adroddiad yn dilyn proses graffu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Gyfrifon Blynyddol 2017-18 Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Amgueddfa Genedlaethol. Rwyf wedi ystyried pob un o'r argymhellion a gafwyd ynghylch paratoi a chyflwyno cyfrifon blynyddol Llywodraeth Cymru ac mae'r ymatebion i'w gweld yn atodiadau A i C. Mae pob un o'r argymhellion wedi'u derbyn ac mae fy swyddogion yn cymryd y camau angenrheidiol i weithredu cynifer o'r argymhellion ag sy'n ymarferol cyn i gyfrifon 2018-19 gael eu cyhoeddi.

Yn gywir,

Shan Morgan

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Atodiad A**

# Ymateb i Argymhellion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd y mesurau angenrheidiol i atal swyddogion rhag gwrthod rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus eto (yn gyfrinachol os oes angen) ar y sail na chânt wneud hynny yn ôl y gyfraith (ac yn amlwg yn groes i A4.12.11 o Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.**

**Derbyn yr argymhelliad.** Rwy'n rhannu pryder y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru a'i chyrff hyd braich fod mor agored a thryloyw â phosibl yn eu cyfrifon a chyda'r Pwyllgor ei hun, mewn perthynas â thaliadau diswyddo yn yr un modd â phopeth arall. Nid yw bob amser yn bosibl bod yn hollol dryloyw – fel y mae'r Pwyllgor yn cydnabod, weithiau bydd angen ystyried materion yn ymwneud â diogelu data neu rwymedigaethau cyfreithiol. Ond rwy'n credu y gallwn wneud mwy i leddfu pryderon y Pwyllgor ac rwy'n ystyried sut y gallwn gyflawni hyn. Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor i'w ddiweddaru o fewn dau fis.

**Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hamserlen ar gyfer cyhoeddi ei chyfrifon a'i hadroddiadau blynyddol yn flynyddol i helpu o ran tryloywder a dealltwriaeth o'r broses.**

**Derbyn yr argymhelliad.** Mae manylion yr amserlen ar gyfer paratoi'r cyfrifon blynyddol wedi'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor mewn perthynas â'i thrafodaethau â Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys y camau y cytunwyd arnynt i ymdrin â'r materion y daethpwyd ar eu traws wrth lunio ac archwilio cyfrifon 2017-18.**

**Derbyn yr argymhelliad**. Mae copi o'r wybodaeth a rennais ag Archwilydd Cenedlaethol Cymru ynglŷn â'r camau y cytunwyd arnynt i ymdrin â'r materion y daethpwyd ar eu traws wrth baratoi cyfrifon 2017-18 wedi'i amgáu yn atodiad B.

**Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro, i'r Pwyllgor, yr adnoddau sydd ganddi ar gyfer y broses, yn ogystal ag**

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**esbonio sut y mae'n sicrhau bod ganddi ddigon o sgiliau a galluoedd i ddarparu ei chyfrifon blynyddol.**

**Derbyn yr argymhelliad.** Mae'r wybodaeth yn atodiad B yn cynnwys manylion pellach am yr adnoddau ychwanegol sydd ar gael bellach o fewn y tîm sy'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon craidd a chyfunol, ac felly'r hyn a gyflwynir i Gyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Mae'r holl staff yn dal y cymwysterau priodol: mae gan y staff SEO, Gradd 7 a'r uwch weision sifil gymhwyster proffesiynol perthnasol mewn cyfrifeg ac mae nifer o'r staff wedi bod yn gweithio o'r blaen mewn tîm cyfrifon canolog. Rwyf wedi dyblu nifer y staff cymwysedig/rhannol-gymwysedig sy'n paratoi cyfrifon 2018-19, o gymharu'r sefyllfa ag un y llynedd.

**Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth ariannol fanylach a gwybodaeth am berfformiad megis dadansoddiadau o wariant blynyddol ym mhob Prif Grŵp Gwariant a sut y mae'r rhaglenni hyn yn cyflawni yn erbyn canlyniadau arfaethedig. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth i alluogi'r cyhoedd i weld sut y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a hefyd adroddiadau am ei pherfformiad yn ystod y flwyddyn i gynyddu tryloywder ac atebolrwydd.**

**Derbyn yr argymhelliad.** Mae'r adroddiad alldro blynyddol a gyhoeddir i'r Pwyllgor Cyllid ar ôl y cyfrifon blynyddol yn rhoi manylion cynhwysfawr ynghylch sut mae alldro Llywodraeth Cymru yn cymharu â'r gyllideb. Mae'r datganiad o alldro adnoddau, sy'n ofyniad gorfodol ar gyfer yr holl gyfrifon blynyddol, yn rhoi manylion y gwariant yn erbyn pob un o'r prif grwpiau gwariant, ac yn 2018-19 bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno tabl pellach sy'n cynnwys y 30 maes gwariant mwyaf. Rhoddir sylw i'r mater o adrodd ar berfformiad o dan argymhelliad 17.

**Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi mesurau ar waith i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg i gyhoeddi ei chyfrifon yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd.**

**Derbyn yr argymhelliad.** Caiff y fersiynau Cymraeg a Saesneg o gyfrifon 2018-19 eu cyhoeddi yr un pryd. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn pennu bod rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru osod y cyfrifon yn y Cynulliad. Yn y gorffennol, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi gosod y fersiwn Saesneg yn unig gan nad yw'r fersiwn Gymraeg yn destun archwiliad. Er mwyn osgoi unrhyw ddryswch posibl

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

ynglŷn â'r dyddiadau cyhoeddi, byddaf yn awgrymu wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru ein bod yn anfon copïau o'r fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r cyfrifon at ei swyddogion a'u bod hwythau wedyn yn cyflwyno'r ddwy fersiwn i'r Cynulliad.

**Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr amserlen ar gyfer mynd â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol i'r Bwrdd ac yn rhannu'r canlyniad, yn ogystal â phapurau a drafodir gan y Bwrdd.**

**Derbyn yr argymhelliad.** Rwyf wedi comisiynu papur i'w gyflwyno i Fwrdd Llywodraeth Cymru yn ei gyfarfod ym mis Mai er mwyn cynnal trafodaeth yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf ynglŷn â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol. Rwyf wedi gofyn am i'r papur ystyried y datblygiadau ers i'r papur gwreiddiol, y dyfynnir ohono yn adroddiad y Pwyllgor, gael ei lunio yn 2017. Bydd y papur hefyd yn ystyried y cydbwysedd rhwng polisi uchelgeisiol yn seiliedig ar darged Strategaeth y Gymraeg ar un llaw, a materion ymarferol ar y llall. Yn amlwg mae hwn yn fater sensitif i'r staff, a rhaid inni ystyried yn ofalus sut y gallai unrhyw newidiadau effeithio ar y gweithlu. Wrth baratoi'r papur rydym hefyd wedi bod yn ystyried yr arferion gorau mewn sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ac mae fy swyddogion wedi cyfarfod gyda Phrif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu De Cymru, Jeremy Vaughan, a hefyd Gomisiwn y Cynulliad, Cyngor Rhondda Cynon Taf a Chyngor Ynys Môn, i drafod sut maent yn mynd ati i sicrhau capasiti o ran sgiliau Cymraeg yn y gweithlu ac i hwyluso a hyrwyddo mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn eu sefydliadau. Nid yw papurau polisi'r Bwrdd o'r natur hwn yn cael eu cyhoeddi gan amlaf, ond yn dilyn trafodaeth ar y materion hyn gan y Bwrdd, bydd y papur, a fydd yn cynnwys barn y Bwrdd, yn cael ei gyflwyno i'w ystyried gan y Prif Weinidog a Gweinidog y Gymraeg a Materion Rhyngwladol. Byddaf yn rhannu canlyniad y broses ystyried hon gyda'r Pwyllgor, ynghyd ag unrhyw bapurau perthnasol. Gobeithiaf allu gwneud hyn erbyn mis Medi.

**Argymhelliad 17. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut i gydymffurfio â'r arfer gorau ym maes cyflwyno adroddiadau ariannol drwy gynnwys gwybodaeth am ei pherfformiad a mabwysiadu'r arfer hwn wrth lunio adroddiadau blynyddol a chyfrifon y flwyddyn nesaf, cyn cyhoeddi rhagor o ganllawiau i gyrff a noddir ganddi. Dylai'r adroddiadau blynyddol a'r cyfrifon, o leiaf, nodi sut y mae'r arian wedi'i wario a'r hyn y mae wedi'i gyflawni, gan gyfeirio at y targedau a bennwyd gan Weinidogion Cymru a Llywodraeth**

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Cymru, yn ogystal â'r perfformiad yn eu herbyn. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad o wariant yn erbyn nodau "Ffyniant i Bawb" (a'r rhaglenni dilynol) a thargedau sefydliadol eraill yn y cyfrifon, yn gyson â'r gwariant yr adroddir arno yn y datganiadau ariannol.**

**Derbyn yr argymhelliad.** Rwyf wedi gofyn i Jeff Farrar yn ei swyddogaeth fel Cyfarwyddwr Anweithredol ar Fwrdd Llywodraeth Cymru i arwain grŵp gorchwyl a gorffen i gynghori ar ddull addas o baratoi cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol gwell a systematig ar gyfer Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd iddo edrych ar y deunydd presennol ac ystyried pa fesurau ychwanegol y byddai'n ddefnyddiol inni eu mabwysiadu i'n galluogi i fonitro cynnydd a chyflawniad yn fwy effeithiol. Y cylch gorchwyl ar gyfer y grŵp yw i ystyried a gwneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Parhaol ar gyfres newydd o wybodaeth rheoli perfformiad a dangosyddion perfformiad allweddol mewn perthynas â'i chyfrifoldebau o ran sut y caiff Llywodraeth Cymru ei rhedeg.

Mae Mr Farrar wedi dechrau ar ei waith, ac rwyf wedi gofyn am adroddiad erbyn diwedd mis Mehefin. Credaf ei bod yn anhebygol y bydd llawer o'r gwaith hwn yn barod mewn pryd i gael ei gynnwys yn ein cyfrifon nesaf, ond byddaf yn gallu diweddaru'r Pwyllgor ar y cynnydd a wneir yn yr hydref. Mae'r gwaith yn ymwneud â pherfformiad gweithredol Llywodraeth Cymru, a'r meysydd y mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn gyfrifol amdanynt, nid y rhai sy'n gyfrifoldeb i Weinidogion. Fodd bynnag, byddaf yn trafod y goblygiadau ehangach posibl sydd i'r argymhelliad penodol hwn gyda'r Prif Weinidog a byddaf yn sicr yn tynnu ei sylw at y pryderon sydd wedi'u mynegi gan y Pwyllgor.

**Argymhelliad 18. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud yn glir y gofynion y mae'n anelu at gydymffurfio â hwy wrth lunio ei hadroddiadau blynyddol a'i chyfrifon. Dylai hefyd fod yn glir ynghylch gofynion Cymru ar gyfer Adroddiadau Blynyddol a sicrhau bod pob corff yn cydymffurfio â'r canllawiau hyn, gan gynnwys hi ei hun. Bydd hyn yn helpu i ddarparu gwybodaeth ddigonol a phriodol gan alluogi gwaith craffu effeithiol.**

**Derbyn yr argymhelliad.** Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfarwyddyd cyfrifon i'w chyrff cyhoeddus, sy'n rhoi manylion ynghylch sut y dylid paratoi cyfrifon blynyddol a phwy y gallant siarad â hwy os oes unrhyw gwestiynau. Mae hefyd yn gweithio'n agos gyda'i is-gwmnïau i sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir i

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

gynorthwyo â pharatoi'r cyfrifon cyfunol yn gadarn.  Mae'r holl wybodaeth a gyflwynir i Lywodraeth Cymru i'w chyfuno yn y cyfrifon yn cael eu harchwilio'n annibynnol gan Swyddfa Archwilio Cymru neu gan un o'r cwmnïau cyfrifwyr mawr. Y brif ffynhonnell o ganllawiau i Lywodraeth Cymru a'r holl sefydliadau eraill yw'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) a gyhoeddir ac a diweddarir gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Cynghorir Trysorlys EM ar faterion yn ymwneud â safonau cyfrifyddu gan y Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol (FRAB).  Mae gan Lywodraeth Cymru sedd barhaol ar yr FRAB a chaiff ei chynrychioli gan y Cyfarwyddwr Cyllid.

**Argymhelliad 19. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried pa wybodaeth y gellir ei chynnwys yn ei chyfrifon er mwyn hyrwyddo tryloywder mewn perthynas â'r cymorth busnes a ddarperir heb ddigalonni darpar fuddsoddwyr.**

**Derbyn yr argymhelliad.** Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r holl wybodaeth y gall ei wneud heb dorri cytundebau ynghylch cyfrinachedd masnachol.  Adolygir yr wybodaeth hon bob blwyddyn i benderfynu a yw'n parhau'n sensitif yn fasnachol.  Yn dilyn cyhoeddi cyfrifon 2017-18, gofynnodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am sesiwn gaeedig i drafod unrhyw wybodaeth na ellid ei chyhoeddi, a byddwn i'n awgrymu y byddai cyfarfod tebyg yn dilyn cyhoeddi'r cyfrifon eleni yn ffordd briodol o sicrhau tryloywder a hwyluso craffu ar y penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 20. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cysylltu â'i chymheiriaid yn Llywodraeth yr Alban i wella ei dealltwriaeth o rinweddau posibl cyflwyno Cyfrifon Llywodraeth Gyfan Cymru ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.**

**Derbyn yr argymhelliad.** Byddaf yn rhoi diweddariad i'r pwyllgor pan fyddwn yn cyfarfod yn yr hydref.  Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes achos cryf wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru dros baratoi cyfrifon Cymru Gyfan.

**Argymhelliad 21  Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhannu â'r Pwyllgor ei chynllun gweithredu ar gyfer lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.**

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Derbyn yr argymhelliad.** Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chwarae Teg (yng ngwanwyn 2019) i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Bydd hwn yn cael eu rhannu gyda'r Pwyllgor unwaith y bydd wedi'i gwblhau a'i gymeradwyo.

**Argymhelliad 22 - Mae'r Pwyllgor yn argymell, er mwyn helpu o ran tryloywder a hwyluso gwaith craffu, fod Llywodraeth Cymru yn ystyried a ellid cynnwys rhagor o wybodaeth yn ei chyfrifon yn y dyfodol i esbonio diben pecynnau ymadael a/neu gynlluniau diswyddo.**

**Derbyn yr argymhelliad.** Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am becynnau ymadael a chynlluniau diswyddo yng nghyfrifon y dyfodol. Byddwn hefyd yn ysgrifennu at ein cyrff hyd braich i bwysleisio pa mor bwysig yw eu bod hwythau yn gwneud hynny hefyd.

**Argymhelliad 23. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth yn ei hadroddiadau blynyddol a'i chyfrifon blynyddol am y gweithgareddau effeithlonrwydd ar draws ei sefydliad. Dylai hyn gynnwys ei halldro yn erbyn y targedau a bennwyd, gydag esboniad lle nad yw nodau perfformiad wedi'u cyrraedd.**

**Derbyn yr argymhelliad.** Bydd y gwaith a wneir gan Jeff Farrar yn sail i benderfynu ar y ffordd orau y gall Llywodraeth Cymru fynd ati i greu cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol a fydd yn helpu i ddangos sut mae'n cyflawni camau effeithlonrwydd ar draws y sefydliad. Rydym hefyd yn ystyried sut y byddwn yn mynd ati i sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer eu mesur ac adrodd arnynt. Byddaf yn gallu diweddaru'r Pwyllgor yn yr hydref.

**Argymhelliad 24. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu, cyn i'r Pwyllgor graffu ar ei chyfrifon ar gyfer 2018-19, ddiweddariad mewn perthynas â gwaith y Bwrdd Gwella Effeithlonrwydd ac, yn benodol, y camau a weithredwyd o ganlyniad i'r adolygiad annibynnol o'i wasanaethau corfforaethol.**

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Derbyn yr argymhelliad.** Byddaf yn ysgrifennu at aelodau'r pwyllgor ynglŷn â'r Bwrdd Gwella Effeithlonrwydd cyn y broses o graffu ar gyfrifon 2018-19, a byddaf yn cynnwys rhagor o fanylion am yr adolygiad o wasanaethau corfforaethol.

**Argymhelliad 25 – Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn esbonio'r rhesymau dros newid trywydd a sut y mae "menter Diogelu'r Dyfodol" yn wahanol i "Parod at y Dyfodol", y cynllun a gyflwynwyd gan y cyn Ysgrifennydd Parhaol. Dylai hyn bennu sut y mae'r rhaglen newydd yn gweithio er mwyn gwella effeithlonrwydd y sefydliad, yn ogystal â datblygu ei gapasiti a'i ystwythder.**

**Derbyn yr argymhelliad.** Menter gwella sefydliadol yw Diogelu'r Dyfodol a'i nod yw sicrhau bod gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru yn barod i wynebu'r heriau cymhleth sydd o'i flaen wrth gynorthwyo'r Gweinidogion i gyflawni'r rhaglen bresennol, gan adeiladu gwasanaeth sifil hyderus, medrus a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae'n adeiladu ar waith ardderchog yr Ysgrifennydd Parhaol blaenorol drwy ei raglen newid "Paratoi at y Dyfodol" ac yn rhoi sylw i'r hyn a ddysgwyd drwy'r rhaglen honno. Roedd "Paratoi at y Dyfodol" yn edrych yn bennaf ar yr addasiadau yr oedd angen i Lywodraeth Cymru eu gwneud o ran trefniadaeth a strwythur. Mae Diogelu'r Dyfodol yn newid y pwyslais ac yn canolbwyntio ar newid sy'n ymwneud â phobl a'r ffordd yr ydym yn mynd ati mewn modd integredig, ar draws y system gyfan, i roi'r rhaglen newid ymddygiad ar waith.

Yn ogystal â chyflwyno set newydd o ddisgwyliadau ac ymddygiadau sy'n cyfleu'r ffyrdd o weithio yr ydym yn eu hannog a'u gwerthfawrogi, rydym wedi gwneud newidiadau sylweddol i'n systemau rheoli perfformiad, ein systemau dyrchafu, ein hyfforddiant arweinyddiaeth a'n rhaglen ehangach o feithrin gallu, er mwyn annog a gwreiddio'r disgwyliadau hyn ar draws y sefydliad.

Ceir rhagor o wybodaeth yn Atodiad C.

**Argymhelliad 26 - Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro i'r Pwyllgor ei safbwynt o ran mabwysiadu Proffiliau Llwyddiant Gwasanaeth Sifil y DU a sut y bydd y rhain yn gweithio yng nghyd-destun Cymru, gan gynnwys y berthynas - neu fel arall - rhwng y dull gweithredu hwn a safonau a gwerthoedd ar gyfer hybu mewnol ar raddfeydd porth a ddatblygir**

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**gyda mewnbwn Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a pha fframwaith sy'n cael blaenoriaeth.**

**Derbyn yr argymhelliad -** Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mabwysiadu fframwaith recriwtio Proffiliau Llwyddiant gwasanaeth sifil y DU yn ystod hydref 2019 (yn amodol ar ymgysylltu ac ymgynghori ag undebau llafur a rhwydweithiau staff o fewn Llywodraeth Cymru).

Mae'r Porth Asesu a Datblygu ar gyfer dyrchafiadau mewnol wedi treialu nifer o elfennau o'r Proffiliau Llwyddiant, gan gynnwys cyfweld yn seiliedig ar gryfderau. Cafodd yr ymddygiadau a'r cryfderau a aseswyd yn y Porth eu dewis yn benodol i ategu'r safonau a'r gwerthoedd a ddatblygwyd gyda chyfraniad gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Argymhelliad 27 - Mae'r Pwyllgor yn argymell, er mwyn sicrhau ei bod yn gallu darparu goruchwyliaeth annibynnol a her i'r Weithrediaeth ac osgoi gwrthdaro buddiannau (gwirioneddol neu ganfyddedig), na ddylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ei Chyfarwyddwyr Anweithredol i wneud gwaith y tu hwnt i gwmpas eu rolau anweithredol.**

**Derbyn yr argymhelliad.** Yn y dyfodol ni fydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu ei Chyfarwyddwyr Anweithredol i ymgymryd â rolau eraill ar gyfer Llywodraeth Cymru nad ydynt yn rhan o'u swyddogaeth fel Cyfarwyddwyr Anweithredol. Yn ogystal, cyn i Lywodraeth Cymru fodloni i'w Chyfarwyddwyr Anweithredol ymgymryd â rolau ar gyfer cyrff hyd braich, byddai gofyn iddi fod yn argyhoeddedig bod y posibilrwydd o wrthdaro buddiannau yn fach iawn; yn hyderus y gellid rheoli'r gwrthdaro hwnnw yn briodol; a bod budd cyhoeddus clir yn sgil y ffaith fod y Cyfarwyddwr Anweithredol yn ymgymryd â rôl ychwanegol gyda chorff hyd braich.

**Argymhelliad 28 Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn esbonio'n llawn sut y bydd yn cael sicrwydd llawn, wedi'i ddogfennu, am y materion yr adroddwyd arnynt o'r blaen drwy'r weithdrefn galw i mewn.**

**Derbyn yr argymhelliad.** Rydym yn dal i weithio ar fanylion terfynol ein dull gweithredu newydd, a byddaf yn ysgrifennu eto at y Pwyllgor ar ôl inni gwblhau ein trafodaethau. Byddaf yn disgwyl gallu gwneud hyn erbyn mis Gorffennaf.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Papur y Pwyllgor Archwilio a Risg – Gwersi a ddysgwyd o'r broses o baratoi cyfrifon 2017-18**

## Cefndir

1. Roedd llawer o broblemau ynghlwm wrth y broses o baratoi cyfrifon blynyddol 2017-18 Llywodraeth Cymru, a hynny'n bennaf oherwydd nifer o anawsterau a gafwyd gyda'r offer taenlen a ddefnyddir i gyfuno'r data ariannol, ynghyd â diffyg adnodd. Yn sgil hynny, sefydlwyd rhaglen fer o waith gwella. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith hwnnw wedi'i gwblhau ac, ar sail y canfyddiadau, mae'r tîm cyfrifon wedi dechrau ar y cynlluniau manwl ar gyfer cyfrifon blynyddol 2018-19.

## Ffrydiau gwaith gwella

<u>Offer cymorth</u>

2. Gofynnwyd i uwch-gyfrifydd profiadol mewn tîm gwahanol adolygu'r broses a'r offer a ddefnyddiwyd gan y tîm i gydgrynhoi'r cyfrifon blynyddol, er mwyn gwirio nad oedd gwallau yn y tablau a'r fformiwlâu. Mae'r unigolyn hwn mewn sefyllfa dda i gynnal Adolygiad o'r fath gan fod ei thîm hithau hefyd yn dibynnu ar daenlenni mawr cymhleth i helpu i baratoi'r tablau sy'n sail i gyllideb Llywodraeth Cymru a'r ddwy gyllideb atodol. Y nod cyffredinol oedd sicrhau bod data, o gael eu llwytho i'r offer taenlen a ddefnyddir i lunio'r cyfrifon, yn cynhyrchu'r ffigurau cywir ar gyfer y datganiadau ariannol craidd.

3. Mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau ac rwyf wedi cael fy sicrhau nad yw'r offer taenlen a ddefnyddir gan y tîm cyfrifon wedi'u llygru ac nad oes gwallau ynddynt. Fodd bynnag, dangosodd y gwaith mai un o'r prif resymau pam y daeth y tîm ar draws problemau oedd nad oeddent wedi dilyn y gweithdrefnau priodol. Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd ar gyfer 2018-19 yn mynd i'r afael â hyn.

<u>Y dull cyffredinol o fynd ati i baratoi'r cyfrifon blynyddol</u>



Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

4. Gofynnwyd i'r Tîm Archwilio Mewnol adolygu dull cyffredinol Llywodraeth Cymru o baratoi'r cyfrifon. Disgwylir yr adroddiad terfynol.

Adnoddau staffio

5. Roedd adnoddau staffio yn broblem allweddol yn ystod y broses o baratoi'r cyfrifon, a chafodd hyn ei achosi'n rhannol oherwydd na wnaeth staff dros dro ymgymryd â swyddi. O ganlyniad i hynny, rwyf wedi cynyddu nifer y staff o fewn y tîm fel nad ydym yn dibynnu ar staff asiantaeth. O hyn ymlaen bydd y tîm cyfrifon yn cynnwys:

- Gradd 7 – pennaeth cyfrifon
- SEO – Cyfrifon Llywodraeth Cymru
- SEO – Cydgrynhoi a Chyfrifon y Llywodraeth Gyfan
- HEO – (wedi cymhwyso'n rhannol)
- Swyddog cyllid llwybr carlam y DU (wedi cymhwyso'n rhannol)

6. Rwyf hefyd wedi penodi dirprwy gyfarwyddwr newydd i oruchwylio'r cyfrifon blynyddol, ynghyd a'r ganolfan ragoriaeth grantiau, llywodraethiant a threthi. Mae gan yr unigolyn brofiad sylweddol o gydgrynhoi cyfrif y GIG ar gyfer Cymru ac mae wedi gweithio mewn rhannau eraill o Lywodraeth Cymru yn y gorffennol.

7. Gyda'i gilydd, mae'r newidiadau hyn yn golygu bod nifer y staff sy'n canolbwyntio ar lunio cyfrifon blynyddol 2018-19 wedi dyblu.

Llwyth gwaith y tîm cyfrifon

8. Mae'r cyfrifon blynyddol yn cynnwys tair prif elfen: trosolwg o Lywodraeth Cymru, adroddiad atebolrwydd a datganiadau ariannol allweddol. Mae'r trosolwg a'r adroddiad atebolrwydd yn destun mwy o graffu allanol ac felly, yn y gorffennol, mae'r tîm cyfrifon wedi gorfod gweithio'n agos gyda nifer fawr o rannau eraill o Lywodraeth Cymru i gasglu'r holl wybodaeth a thablau angenrheidiol. Yn aml mae gofyn i hyn ddigwydd ar y cyd â'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol ar gyfer eu harchwilio.

9. Ar gyfer 2018-19, rwyf wedi gofyn i'r pennaeth llywodraethiant (a'r cyn bennaeth cyfrifon) reoli'r gwaith o baratoi'r trosolwg a'r adroddiad

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

atebolrwydd. Bydd hyn yn golygu bod y tîm cyfrifon yn rhydd i ganolbwyntio ar y data ariannol a'r berthynas â Swyddfa Archwilio Cymru a dylai greu amser ychwanegol i ystyried sut y byddem efallai'n hoffi datblygu neu wella'r rhan 'trosolwg' yn y cyfrifon blynyddol.

Paratoi cyfrifon 2018-19

10. Ein nod yn y tymor hir yw bod yr Ysgrifennydd Parhaol yn llofnodi'r cyfrifon ym mis Gorffennaf. Fodd bynnag, yn sgil y problemau a gafwyd wrth baratoi cyfrifon blynyddol 2017-18, byddwn yn parhau eleni â'r dyddiad llofnodi presennol, sef canol Awst.

Offer cydgrynhoi

11. Yn y tymor canolig, mae angen i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r ffaith ei bod yn dibynnu ar daenlenni cymhleth i gydgrynhoi llawer iawn o ddata. Bydd hyn yn dod yn fwy o ffactor wrth inni gydgrynhoi rhagor o sefydliadau'r sector cyhoeddus. Yn anffodus, nid oedd modd bwrw ymlaen â hyn ar gyfer 2018-19. Fodd bynnag, mae ein swyddog cyllid ar y llwybr carlam yn ymdrin â'r broblem hon fel rhan o'i brosiect blwyddyn olaf. Bydd ei gasgliadau a'i argymhellion ar gael erbyn mis Medi eleni.

**I gloi**

12. Rwy'n hyderus y bydd y camau a gymerwyd yn dilyn yr anawsterau a gafwyd wrth baratoi cyfrifon blynyddol 2017-18 yn mynd i'r afael â'r materion allweddol, sef adnoddau ac addasrwydd yr offer cydgrynhoi. Codwyd nifer o faterion gan y Swyddfa Archwilio yn yr ISA260, gan gynnwys sicrhau ansawdd, gwybodaeth ategol ac anghysondebau mewn data, ac mae perthynas uniongyrchol rhwng hyn a'r anawsterau ehangach a gafwyd.

13. Wrth baratoi cyfrifon blynyddol 2018-19, y nod fydd sicrhau bod y cyfrifon yn parhau heb eu hamodi a'u bod yn cael eu cynhyrchu yn unol â'r amserlenni priodol. Fodd bynnag, bydd y camau a gymerwyd yn sgil yr anawsterau a gafwyd y llynedd yn galluogi Llywodraeth Cymru i barhau i ddatblygu a gwella agweddau ar y cyfrifon blynyddol. Yn arbennig, hoffem weithio gyda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i ymdrin â rhai o'r heriau a godwyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynglŷn â'r trosolwg o Lywodraeth Cymru.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Atodiad C

## Mae pedair prif thema i'r rhaglen Diogelu'r Dyfodol

### Diogelu'r ffordd yr ydym yn arwain

Mae'r thema hon yn ymwneud ag ymgorffori diwylliant o arweinyddiaeth cydweithredol a gwasgaredig ar draws y sefydliad; gan helpu rheolwyr i ysgogi, datblygu a grymuso timau ac unigolion i wneud gwaith o safon uchel, a hynny mewn modd mor effeithlon â phosibl. Dros y 18 mis diwethaf, mae hyn wedi cynnwys cyflwyno hyfforddiant **Dyfodol-Ymgysylltu-Cyflawni** er mwyn cefnogi a datblygu arweinwyr ar bob lefel.

### Diogelu'r ffordd yr ydym yn dysgu

Mae'r elfen hon o'r rhaglen newid yn canolbwyntio ar feithrin gallu a datblygu gweithlu cadarn sy'n gallu ymaddasu ac sy'n gymwys ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y rolau y mae eu hangen arnom heddiw. Dros y 18 mis diwethaf rydym wedi cynnal tri **digwyddiad TEDx** oedd yn fodd i ysbrydoli pobl. Y themâu oedd: gwneud polisïau mewn ffordd arloesol, arloesi digidol ac arweinyddiaeth gynhwysol. Cynhaliwyd cyfres o **Sgyrsiau TED** unigol hefyd i rannu dysg. Rydym wedi cyflwyno ffyrdd newydd o ehangu profiad ac adeiladu rhwydweithiau o fewn y sefydliad ac ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector drwy'r **Rhaglen Profiad Tymor Byr (STEP).** Rydym hefyd wedi ailgyfeirio ein buddsoddiad corfforaethol mewn **Dysgu a Datblygu** er mwyn mynd i'r afael â bylchau allweddol mewn sgiliau, gan gynnwys cynnig hyfforddiant ar unwaith i helpu staff i baratoi at weithgarwch yn ymwneud â threfniadau pontio'r UE. Eleni byddwn yn cyflwyno Lab Dysgu newydd i'r holl staff, a fydd yn rhoi mynediad ar-lein i gynllun dysgu a datblygu cyfunol newydd. Bydd hyn yn cynnwys cwricwlwm polisi newydd a fydd yn integreiddio egwyddorion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn llawn yn ein dull o ddatblygu gallu ym maes polisi.

### Diogelu'r ffordd yr ydym yn perfformio

Fel rhan o Diogelu'r Dyfodol rydym wedi cyflwyno dull gweithredu newydd ar gyfer rheoli perfformiad, sydd wedi'i seilio ar gryfderau ac sy'n defnyddio dulliau annog. Mae'n canolbwyntio ar ddatblygiad a llesiant yn ogystal ag ar berfformiad a



Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

chyflawni. Mynychodd mwy na 3,500 o reolwyr uwch a chanol sesiynau hyfforddi ar y dull hwn sydd wedi'i seilio ar egwyddorion Dyfodol-Ymgysylltu-Cyflawni. Law yn llaw â hyn, rydym hefyd wedi cyflwyno system camu ymlaen mwy tryloyw a chadarn sy'n profi'r rhai sy'n gwneud cais am ddyrchafiad yn erbyn y safonau a'r disgwyliadau a osodwyd gennym - gan gynnwys arweinyddiaeth gynhwysol. Mae'r broses o gyflwyno'r pyrth camu ymlaen hyn wedi dechrau erbyn hyn, a chynhaliwyd dwy Ganolfan Asesu a Datblygu Gradd 7 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae agwedd fwy trwyadl wedi'i mabwysiadu yn achos y gweithdrefnau asesu ar gyfer swyddi'r Uwch Wasanaeth Sifil hefyd.

Mae'r ymgeiswyr sy'n llwyddo yn y Ganolfan Asesu a Datblygu Gradd 7 yn cael eu paru â swyddi sy'n flaenoriaeth (disgwylir yn bendant i'r rhai sy'n gwneud cais am ddyrchafiad fod yn barod i fod yn hyblyg). Yn yr un modd, agorwyd Rhaglen Ddoniau Gradd 7 newydd ar gyfer rheolwyr profiadol, a bydd y rhai llwyddiannus yn cael eu paru â dwy swydd sy'n flaenoriaeth yn ystod y rhaglen dair blynedd. Mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen Ddoniau yn dilyn rhaglen ddatblygu strwythuredig sydd wedi'u chynllunio i'w paratoi ar gyfer swyddi yn yr Uwch Wasanaeth Sifil. Mae'r newidiadau hyn yn golygu bod gan y sefydliad grŵp o bobl ar lefel Gradd 7 sy'n disgwyl cael eu rhoi mewn swyddi yn hytrach na'u bod hwy eu hunain yn rheoli eu symudiadau eu hunain o gwmpas y sefydliad. Mae hyn yn gwella ein gallu i wneud yn siŵr bod adnoddau ar gael ar gyfer blaenoriaethau allweddol mewn ffordd fwy ystwyth ac effeithiol.

**Diogelu ein ffordd o weithio**

Er mwyn gwneud yn siŵr bod y broses o gynllunio'r gweithlu a datblygiad yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Cabinet a'i bod mor ystwyth ac ymatebol a phosibl, fe wnaethom gefnogi pob is-adran yn y sefydliad i gynnal **diwrnod datblygu Diogelu'r Dyfodol** er mwyn edrych ar y blaenoriaethau presennol a'r rhai mwy hirdymor, asesu bylchau yng ngallu unigolion a'r tîm a chytuno ar gynlluniau datblygu ar gyfer y tîm. Yn y sesiynau hyn hefyd, ystyriwyd pa mor dda y mae pum ffordd o weithio **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** yn cael eu mabwysiadu o fewn timau, a rhoddwyd cyfle i'r staff fynegi barn ynglŷn â'r meysydd lle mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod yr egwyddorion yn rhan annatod o'n systemau corfforaethol, ein prosesau a'n rhaglenni dysgu a datblygu.